TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

VTCT Basic Make-Up Application Award Level 1

Yn gryno Am yrfa yn y diwydiant harddwch, mae gwybod hanfodion rhoi colur yn angenrheidiol - a bydd y cwrs hwn yn dangos i chi sut i ddefnyddio ystod eang o gynnyrch, gwirio bod y canlyniad terfynol yn bodloni'r cleient a'ch helpu chi i fynd ymlaen i gwrs colur a allai arwain at gyflogaeth.

Mae'r cwrs hwn ar gyfer... ...unrhyw un sy'n dymuno gweithio yn y diwydiant harddwch, i arbenigo mewn colur yn enwedig.

Cynnwys y cwrs

Mae'r Dyfarniad VTCT Lefel 1 mewn Rhoi Colur Sylfaenol yn eich addysgu chi sut i roi colur sylfaenol, gan ddefnyddio haen sylfaen, eli cuddio, powdwr, cynnyrch i'r llygaid, cynnyrch i'r bochau a chynnyrch i'r wefus. Dangosir i chi sut i baratoi am golur, gwneud dadansoddiad o'r croen a defnyddio technegau ymgynghori, yn ogystal â gwirio bod y canlyniad terfynol yn bodloni'r cleient. Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gymeradwyo a'i gefnogi gan Awdurdod y Diwydiant Trin Gwallt a Harddwch (HABIA), y corff gosod safonau ar gyfer cymwysterau trin gwallt, harddwch, ewinedd a sba.

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Bydd angen i chi fod yn hunan-gymhellol, gweithgar, cyfeillgar ac yn meddu ar lefel uchel o gyflwyniad personol, a bod yn ymroddedig i bresenoldeb llawn a phrydlondeb i'r holl sesiynau. Bydd disgwyl i chi weithio ar gleientiaid go iawn mewn amgylchedd masnachol a bod yn gyfrifol am ddatblygu eich 'sylfaen gleient' eich hun.

Cewch eich asesu drwy gyfuniad o waith a arsylwir, datganiadau tystion, cyfryngau clyweledol, cwestiynau ysgrifenedig ac ar lafar, aseiniadau ac astudiaethau achos.

Ar ôl y cwrs hwn, gallech fynd ymlaen i sawl cymhwyster, megis Diploma NVQ Lefel 2 mewn Therapi Harddwch Cyffredinol/ Colur Therapi Harddwch.

Gofynion Mynediad Byddwch yn unigolyn dros 16 oed sydd â diddordeb yn y diwydiant harddwch neu'n gweithio ynddo, ac mae gofyn i chi feddu ar Lefel 1 neu 2 mewn Llythrennedd.

Gwybodaeth Ychwanegol

Cod gwisg ein salon yw:

Tiwnig gyda throwsus ac esgidiau duon
Gwallt wedi'i glymu'n ôl yn daclus oddi wrth yr wyneb
Ni ddylid gwisgo estyniadau ewinedd a lliw ewinedd
Dim tlysau - caniateir gwisgo modrwy briodas yn unig

Bydd disgwyl i chi wisgo'ch gwisg diwydiant harddwch neu ddillad addas a phrynu pecyn colur sylfaenol am gost o tua £30 i £50.